Tŷ Afon, Ffordd Bedwas
Bedwas, Caerffili,
CF83 8WT

029 2085 9696

Tŷ Afon, Bedwas Road
Bedwas, Caerphilly
CF83 8WT

www.hefcw.ac.uk

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales

# Cylchlythyr | Circular

# Cronfa Cymorth i Raddedigion II

| | | |
|---|---|---|
| **Dyddiad:** | 07 Mawrth 2022 | |
| **Cyfeirnod:** | W22/04HE | |
| **At:** | Penaethiaid sefydliadau addysg uwch yng Nghymru<br>Penaethiaid colegau addysg bellach a ariennir yn uniongyrchol yng Nghymru | |
| **Ymateb erbyn:** | 25 Mawrth 2022 | |
| **Cyswllt** | Enw: | Lisa Barry |
| | Ffôn: | 029 2085 9741 |
| | E-bost: | lisa.barry@hefcw.ac.uk |

Mae'r cylchlythyr hwn yn cadarnhau'r trefniadau ar gyfer proses, dyraniadau ac amserlen taliadau a gwaith monitro ar gyfer cyllid ychwanegol y Gronfa Cymorth i Raddedigion, sy'n adeiladu ar gyllid Llywodraeth Cymru, yn unol â manylion cylchlythyrau W20/34HE a W20/26HE.

Os oes angen y ddogfen hon arnoch mewn fformat hygyrch arall, anfonwch e-bost i info@hefcw.ac.uk.

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Rydym yn croesawugohebiaeth yn y Gymraeg neu yn Saesneg | We welcome correspondence in Welsh and in English
Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg | This document is also available in English

## Cyflwyniad

1. Mae'n glir o'r adroddiadau monitro a gyflwynwyd i CCAUC y bu galw sylweddol am y Gronfa Cymorth i Raddedigion, darpariaeth a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru i raddeigion a ddioddefodd effeithiau'r pandemig (gweler cylchlythyrau W20/34HE a W20/26HE).

2. Mae'n bleser gan CCAUC gael darparu cylldieb ychwanegol o hyd at £1.5m ym mlwyddyn academaidd 2021/22 i alluogi sefydliadau i barhau â'r gefnogaeth hon.

3. Mae'r cylchlythyr hwn yn cadarnhau'r trefniadau, y dyraniadau a'r amserlen ar gyfer monitro cyllid ychwanegol CCAUC, sydd i'w glustnodi erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2022-23 a'i wario erbyn diwedd blwyddyn academaidd 2022/23.

## Nod y cyllid

4. Darperir y cyllid er mwyn parhau i helpu unigolion a raddiodd yn ystod y pandemig i fanteisio ar brofiad gwaith a chymorth yn gysylltiedig â chyflogadwyedd, gan anelu i'w symud yn nes at y farchnad lafur a'u helpu i drosglwyddo i gyflogaeth yn yr amgylchedd swyddi cyfredol. Bydd yn adeiladu ar gyllid cychwynnol y Rhaglen Cymorth i Raddedigion a dylai adlewyrchu ac ategu rhaglen GO Wales: Cyflawni drwy Brofiad Gwaith a gyllidir o Gronfa Gymdeithaso Ewrop.

5. Pwrpas y gronfa yw helpu graddedigion o bob oed sy'n ddi-waith neu mewn rolau lle nad oes ond angen lefel isel o sgiliau, gan ganolbwyntio ar raddedigion sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol[1], neu sy'n dod o grwpiau wedi'u tangynrychioli mewn Addysg Uwch, fel[2]:
   - Graddedigion anabl
   - Graddedigion â chyflwr iechyd meddwl
   - Graddedigion sydd wedi ymddieithrio oddi wrth eu teuluoedd
   - Graddedigion sydd â phrofiad o ofal
   - Graddedigion sydd â chyfrifoldebau gofalu, gan gynnwys cyfrifoldebau rhiant
   - Graddedigion o gefndiroedd Du, Asiaidd neu leiafrifol ethnig[3]
   - Graddedigion sy'n ffoaduriaid neu'n geiswyr lloches
   - Graddedigion o ardal lle ceir lefel isel o gyfranogiad mewn AU (hy, dau gwintel isaf POLAR 4)
   - Graddedigion o ardal ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC)
   - Graddedigion o deuluoedd incwm isel
   - Graddedigion sydd yn aelod cyntaf o'r teulu i fynd i brifysgol

[1] Mae Cyngor CCAUC wedi ymrwymo i weithredu yn ysbryd y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol.
[2] Fel yr amlinellwyd yng nghylchlythyrau W20/26HE a W20/34HE
[3] Mae CCAUC wedi nodi y bydd disgwyl i sefydliadau a reoleiddir lofnodi Siarter Cydraddoldeb Hiliol erbyn mis Ebrill 2022 i ddangos eu bod yn ymrwymo i gefnogi'r grŵp hwn o fyfyrwyr a staff.

- Graddedigion sy'n nodi eu bod yn LGBTQ+
- Graddedigion o leiafrifoedd crefyddol
- Cyn-filwyr y lluoedd arfog a'u plant

6. Yn ei Gynllun Cyflawni, bydd yn ofynnol i bob sefydliad esbonio pa grwpiau y bydd yn canolbwyntio arnynt a sut mae'n bwriadu cyrraedd ac ymgysylltu â'i grwpiau blaenoriaeth, a'r gweithgarwch y mae'n bwriadu ei gyflawni.

7. Anogir sefydliadau i ystyried ffyrdd i gynnig cyfleoedd drwy gyfrwng y Gymraeg ac i sicrhau bod yr adnoddau a ddarperir i'r graddedigion ar gael yn ddwyieithog.

8. Er mwyn asesu effaith y cyllid a mesur y canlyniadau, bydd disgwyl i sefydliadau gynnwys mesurau perfformiad a thargedau yn eu Cynlluniau Cyflawni, ee nifer y graddedigion sydd wedi symud yn nes at y farchnad lafur. Bydd yn rhaid i'r rhain gael eu cymeradwyo gan CCAUC.

**Dyraniadau cyllid**

9. Yn unol â’r fethodoleg gyllido ar gyfer Rhaglen Cymorth i Raddedigion 2020, mae’r dyraniadau cyllid uchaf yn seiliedig ar ganran pob prifysgol o raddedigion o gefndiroedd ehangu mynediad. Mae’r fethodoleg yn cynnwys terfyn isaf o £50,000 ac wedi'i diweddaru i gymhwyso data 2019/20 HESA. Cadarnheir y dyraniadau uchafswm ar gyfer pob sefydliad yn nhabl 1 isod.

Tabl 1: Uchafswm y dyraniadau cyllid fesul sefydliad

| **Enw'r sefydliad** | **£ (GBP)** |
|---|---|
| Prifysgol Aberystwyth | 77,895 |
| Prifysgol Bangor | 134,955 |
| Prifysgol Metropolitan Caerdydd | 143,270 |
| Prifysgol Caerdydd | 294,760 |
| Prifysgol Abertawe | 246,589 |
| Y Brifysgol Agored yng Nghymru | 50,000 |
| Prifysgol De Cymru | 306,516 |
| Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant | 195,646 |
| Prifysgol Glyndŵr Wrecsam | 50,369 |
| **Cyfanswm** | **1,500,000** |

Nodiadau:
- Ymrestriadau - poblogaeth gofrestru safonol HESA 2019/20.
- Graddedigion - y boblogaeth a enillodd gymwysterau (caiff graddedigion eu cyfrif unwaith, p'un a oeddent wedi ennill un neu fwy o gymwysterau).
- Mae’r holl foddau a lefelau astudio wedi'u cynnwys.
- Mae rhai sy'n hanu o'r UE, o wledydd tramor neu o wlad anhysbys wedi'u hepgor

- Mae data ar gyfer Grŵp Llandrillo Menai, Grŵp Colegau Grŵp Colegau NPTC a Choleg Gŵyr Abertawe wedi'u hepgor.
- I ddibenion y gwaith modelu hwn, graddedigion Ehangu Mynediad yw'r rhai a gaiff eu cyfrif yn un neu fwy o'r categorïau canlynol: ag anabledd; o grŵp Du, Asiaidd neu leiafrif ethnig; â phrofiad o ofal; gofalwyr; o ardal cyfranogiad isel; o ardal ehangu mynediad; myfyrwyr â rhieni heb unrhyw gymwysterau AU (israddedig).
- Ardaloedd cyfranogiad isel: ar gyfer myfyrwyr israddedig ifanc amser llawn - yw'r ardaloedd yng nghwintel isaf yr ardaloedd a ddiffiniwyd gan POLAR4; ar gyfer myfyrwyr israddedig aeddfed amser llawn a'r holl fyfyrwyr israddedig rhan-amser - yw'r ardaloedd yng nghwintel isaf yr ardaloedd a ddiffinnir yn ôl cyfran yr oedolion oed gwaith â chymwysterau lefel AU (fel y'i mesurir drwy ddefnyddio data Cyfrifiad 2011). Diffinnir 'ifanc' fel 20 oed neu'n iau ar ddechrau'r cwrs. Diffinnir 'aeddfed' fel 21 oed neu'n hŷn ar ddechrau'r cwrs.
- Ardaloedd ehangu mynediad: ar gyfer myfyrwyr israddedig - yw'r meysydd hynny yng nghwintel isaf yr ardaloedd a ddiffinnir yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru.
- Mae ôl-raddedigion wedi'u hepgor.

10. Mae'r dyraniadau hyn yn cynrychioli'r uchafswm y gallai pob sefydliad ei dderbyn. Bydd y symiau gwirioneddol yn seiliedig ar y gyllideb o fewn y dyraniadau yn nhabl 1 y gall sefydliadau eu clustnodi’n realistig erbyn mis Mawrth 2023, gyda’r nod o wario'r arian erbyn mis Gorffennaf 2023. Bydd hyn wedi'i nodi yng Nghynllun Cyflawni pob sefydliad.

**Proses ac amserlen**

11. Bydd angen i bob prifysgol gyflwyno Cynllun Cyflawni erbyn **25 Mawrth 2022**. Mae'r templed ar gyfer y Cynllun Cyflawni yn Atodiad A. Dylai’r Cynllun Cyflawni amlinellu’r gweithgarwch y bydd sefydliadau’n ei gyflawni er mwyn sicrhau'r canlyniadau, y grwpiau o raddedigion y byddant yn canolbwyntio arnynt, a'r gyllideb uchaf ddangosol, fel y'i disgrifir ym mharagraff 10. Dylid cyflwyno’r Cynllun Cyflawni ar ffurf dogfen Microsoft Word drwy e-bost i Lisa Barry, lisa.barry@hefcw.ac.uk.

12. Ar ôl cymeradwyo'r Cynllun Cyflawni, bydd CCAUC yn cadarnhau'r cyllid, gan nodi'r dyraniadau a'r amodau cysylltiedig. Gwneir taliadau'n unol â'r hyn a nodir yn y cadarnhad, a bydd yn rhaid cael cytundeb CCAUC ar gyfer unrhyw newidiadau i broffil y taliadau.

13. Cyfran gyntaf y taliad fydd 50% o gyfanswm y dyraniad, ac fe'i telir i sefydliadau'n unol â'r gwariant a gynlluniwyd ganddynt yn eu Cynllun Cyflawni cymeradwy.

14. Bydd yr ail gyfran (y 50% sy'n weddill o gyfanswm y dyraniad) yn cael ei rhyddhau pan fydd o leiaf 75% o daliad cyntaf sefydliad wedi'i chlustnodi, fel yr adroddir mewn Adroddiad Monitro boddhaol. Bydd CCAUC yn darparu templed o'r Adroddiad Monitro.

15. Dyma'r amserlen ar gyfer cymeradwyo a thalu'r grant a chyflwyno adroddiadau monitro:

| **Gweithgarwch** | **Dyddiad Dangosol** |
|---|---|
| Dyddiad cyflwyno Cynlluniau Cyflawni | 25 Mawrth 2022 |
| Cadarnhau cymeradwyo Cynlluniau Cyflawni | 4 Ebrill 2022 |
| Y taliad cyntaf (50% o gyfanswm y dyraniad) | I'w bennu yn y Cynllun Cyflawni |
| Dyddiad cyflwyno'r Adroddiad Monitro cyntaf. Manylu ar ddefnydd o'r cyllid | Bob chwarter, o 31 Awst 2022 |
| Yr ail daliad (50% o gyfanswm y dyraniad) | I'w bennu'n unol â'r gwariant a amlinellir yn yr Adroddiadau Monitro |
| Dyddiad cyflwyno ar gyfer Adroddiad Terfynol yn manylu ar ddefnydd ac effaith y cyllid ac Astudiaeth Achos (gweler y nodyn isod) | I'w bennu'n unol â'r gweithgarwch a'r gwariant a amlinellir yn yr Adroddiadau Monitro |

**Monitro**

16. Bydd angen Adroddiadau Monitro chwarterol arnom hyd ddiwedd y gweithgarwch, ac Adroddiad Terfynol pan fydd y cyllid wedi'i wario'n llawn, yn manylu ar ganlyniadau'r cyllid. Bydd hyn yn cynnwys astudiaeth achos, crynodeb o gyfanswm y graddedigion a gafodd gymorth (gan gynnwys y nifer yn ôl pob demograffeg) a'r sefyllfa derfynol yn erbyn mesurau perfformiad y sefydliad. **Os ceir canlyniadau monitro anfoddhaol, rydym yn cadw'r hawl i adennill cyllid.**

17. Bydd templedi'r Adroddiad Monitro, yr Adroddiad Terfynol a'r Astudiaeth Achos yn cael eu darparu ar wahân.

**Ymatebion i**

18. Dylid cyflwyno fersiwn electronig Microsoft Word o’r Cynlluniau Cyflawni drwy e-bost i Lisa Barry (lisa.barry@hefcw.ac.uk) erbyn **25 Mawrth 2022**.

**Rhagor o wybodaeth**

19. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch ag Emma Mock (029 2085 9742; emma.mock@hefcw.ac.uk) neu Lisa Barry (029 2085 9741; lisa.barry@hefcw.ac.uk).

## Asesu effaith ein polisïau

20. Rydym wedi cynnal ymarfer sgrinio asesu effaith er mwyn helpu i ddiogelu rhag gwahaniaethu a hyrwyddo cydraddoldeb. Buom hefyd yn ystyried effaith y polisïau ar y Gymraeg, a darpariaeth Gymraeg yn sector AU Cymru, a'r effeithiau posibl ar y nodau a geir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gan gynnwys ein Hamcanion Llesiant ein hunain. Cysylltwch ag equality@hefcw.ac.uk am ragor o wybodaeth am asesiadau effaith.